**Cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol y Celfyddydau ac Iechyd ar 21.09.2017**
**Gyfarfod am 11:00 - Ystafell Gynadledda 24**
**Tŷ Hywel, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**

**Yn bresennol**

Eluned Morgan AC **(Cadeirydd)**
Kirsty Keenan, *Swyddfa Eluned Morgan*
Paul Jays, *Celf o Gwmpas*
Emily Underwood-Lee, *Prifysgol De Cymru*
Phil George, *Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru*
Nesta Lloyd-Jones, *Cydffederasiwn GIG Cymru*
Eleri Wyn Evans, *Amgueddfa Cymru*
Elena Schmitz, *Llenyddiaeth Cymru*
Catherine Kennedy, *Llenyddiaeth Cymru*
Emma Robinson, *Age Cymru*
Dr Catrin Hedd Jones, *Prifysgol Bangor*
Trevor Whymark, *The CareInn Group*
Prue Thimbleby, *Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM*
Robert Aitken, *Cerddoriaeth mewn Ysbytai*
Tim Jenkins, *Llywodraeth Cymru*
Sarah Teagle, *Forget Me Not Chorus*
Kate Woolveridge, *Forget Me Not Chorus*
Claire Cressey, *Cyfarwyddwr LMN Cymru*
Heather Chandler, *LMN Cymru*
Katherine Harri, *Gweinyddwr LMN Cymru*
Rhian Webber, *BIP Cwm Taf*
Wendy York, *Artis Cymuned*
Annie Dayson, *Theatr Clwyd*
Liz Aylett, *BIP Betsi Cadwaladr*
Andrea Davies, *BIP Betsi Cadwaladr*
Katja Stiller, *Cwm a Bro*
Tamsin Griffiths, *Verve TG / Artist Annibynnol*
Paul Whittaker, *Hide Productions*
Ian Walsh, *UWTSD - Coleg Celf Abertawe*
Joseph Sobol, *Canolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans*

**Ymddiheuriadau**

Sally Lewis, *Cyngor Celfyddydau Cymru*
David Chamberlain, *CBS Caerffili*
Sarah Goodey, *Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan*
Steve Huxton, *Rhwydwaith Diwylliant Oed Gyfeillgar*
Sharon Ford, *Rhwydwaith Diwylliant Oed Gyfeillgar*

Trafododd EM y posibilrwydd y byddai PG yn annerch pwyllgor Dai Lloyd.

Hysbysodd EM y rhai a oedd yn bresennol ei bod wedi ysgrifennu at Fyrddau Iechyd unigol i gael darlun cliriach o'r sefyllfa ar hyn o bryd. Cyfeiriodd at yr erthygl yn y Western Mail ar doriadau i gyllidebau sy'n debygol o effeithio ar y Celfyddydau, gan awgrymu y byddai'n gwneud synnwyr dod yn rhan o agenda Iechyd Cymru. Dywedodd EM fod ffrydio cyfarfodydd yn fyw i Ogledd Cymru bellach yn bosibilrwydd.

Rhoddodd PG ymddiheuriadau ar ran Sally Lewis (SL), sy'n brysur yn gweithio ar yr Adroddiad Mapio. Mae 'darn cryf' yn datblygu a bydd, gobeithio, yn barod erbyn diwedd mis Hydref. Dal y llythyr at y Gweinidogion yn ôl tan yr wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.

**CAM GWEITHREDU:** **EM i ysgrifennu at aelodau'r pwyllgor i awgrymu cwestiynau y gellid eu gofyn pan fydd y Byrddau Iechyd yn mynd ger bron y Pwyllgor Iechyd yr wythnos ganlynol ac ar Hydref 11eg**

Holodd PJ pwy yw'r chwaraewyr allweddol i greu newid – e.e. Meddygon Teulu - a dywedodd fod rhaid i hyn hefyd gynnwys cleifion eu hunain. Disgrifiodd bwysigrwydd adborth, grym achosion enghreifftiol, a'r angen am weithredu cyson. Mynegodd PW yr angen am iaith gyffredin ar draws y Celfyddydau ac Iechyd a phwysigrwydd defnyddio iaith yn ofalus.

**CAM GWEITHREDU:** **Cynigiodd EM y dylid gwahodd cynrychiolydd o'r BMA neu feddyg teulu i ymchwilio i ba fecanweithiau y gallai fod eu hangen. NLlE i helpu i adnabod rhywun yn y gofod hwn**

Bu'r rhai a oedd yn bresennol yn trafod yr hyn sy'n ofynnol ar gyfer gwerthusiad Celfyddydau ac Iechyd a beth sydd ei angen ar gyrff cyllido, ochr yn ochr â'r angen mwy cyffredinol i safoni tystiolaeth ar draws ffurfiau celfyddydol. Rhoddwyd rhagor o fanylion am borthol digidol sy'n cael ei ddatblygu yn y De.

**CAM GWEITHREDU:** **PG ac NLE i gynnwys hyn ar gyfer y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth**

Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch y meini prawf llwyddo a'r anawsterau wrth fesur effaith, a chipio newid ymddygiadol mewn tystiolaeth ar ffurf hanesion. Cyfeiriodd PT at y 'newid o ran cred sy'n ofynnol' yn adroddiad yr Arglwydd Howarth, yna arweiniodd drafodaeth a oedd yn canolbwyntio ar berthnasedd

yr adroddiad i Gymru, a thynnodd sylw at y cyfeiriad at y gwledydd datganoledig. Roedd EUL yn cydnabod yr ymchwil a'r gwaith a wnaed eisoes, ond hefyd yn holi beth oedd ar goll.
**CAM GWEITHREDU: Nodi bylchau yn yr adroddiad y gallai Cymru eu datblygu**

Gofynnodd PT a oedd unrhyw un wedi defnyddio'r adroddiad mewn modd ymarferol. Awgrymodd CC y byddai'n fan cychwyn da ar gyfer cynnig EM/PG. Rhoddodd PT ystyriaeth i argymhellion yr adroddiad mewn perthynas â Chymru. Dywedodd PJ fod yr adroddiad yn rhoi hyder i sefydliadau'r celfyddydau y byddai deialog yn parhau ac esboniodd sut y gallai 'cyfraniad ymgynghorwyr' newid ymddygiad pobl allweddol.

Soniodd PW ac AD am Ddyletswydd Gofal a chyfrifoldeb, gan bwysleisio’r angen i addysgu artistiaid. Esboniodd KW y Rhaglen Hyfforddi Forget-Me-Not yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Disgrifiodd CC fodel Cerddoriaeth Fyw Nawr a'i 'etifeddiaeth barhaus o ran cynaliadwyedd'.
Bu'r rhai a oedd yn bresennol yn trafod y posibilrwydd o system achredu yng Nghymru.

Ystyriodd PT ddosbarthiad yr adroddiad yng Nghymru a dywedodd y byddai'n hapus i fod yn llais dros Gymru yn y cyfarfod ar 12fed Hydref.

Siaradodd Eleri Wyn Evans (Pennaeth Dysgu ac Ymgysylltu Amgueddfa Genedlaethol Cymru) am ddigwyddiad diweddar Heneiddio'n Dda Cymru yn Amgueddfa Genedlaethol Sain Ffagan / Rhwydwaith Diwylliant Cyfeillgar i Oed Cymru.

**Daeth y cyfarfod i ben gyda'r Pwyntiau Gweithredu ychwanegol canlynol:**

**EM i wahodd Angela Burns, Ysgrifennydd Iechyd yr Wrthblaid, i siarad mewn cyfarfod yn y dyfodol**

**CC i wahodd Cerddoriaeth Fyw Nawr (LMN) i roi cyflwyniad ar 'Côr ym Mhob Cartref Gofal' yn y cyfarfod nesaf**

**EM / PG i ysgrifennu llythyr ar y cyd (i gynnwys adolygiad o’r dystiolaeth ac effaith ymyrraeth, ystyriaethau ehangu’r ddarpariaeth a’r premiwm atal)**

**EM i ofyn i Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd lofnodi llythyr ar y cyd (bydd yn cynnwys adolygiad o’r dystiolaeth ac effaith ymyrraeth, ystyriaethau ehangu’r ddarpariaeth a’r premiwm atal)**

**EM i wahodd meddyg teulu neu gynrychiolydd o’r BMA i roi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf**

**EM i ysgrifennu at aelodau'r Pwyllgor Iechyd i ofyn ynglŷn â: cydbwysedd iechyd meddwl - i gynnwys darpariaeth ataliol y aciwt**

**PG i fynd ar drywydd y math o dystiolaeth sydd ei hangen yng nghyd-destun y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth**

**EM i ysgrifennu at yr Arglwydd Howarth**

**Materion addysg glinigol, hyfforddi artistiaid, rhagoriaeth yn y celfyddydau a'r angen am safoni ar draws y celfyddydau i'w trafod ym mis Ebrill**

**Yr Aelodau i ddweud a oes angen ffrwd fideo**

**Dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol: DYDD IAU** ION 25AIN / EBRILL 12FED / MEHEFIN 28AIN / HYD 11EG 2018

LIVE MUSIC NOW
YSBRYDOLI CERDDORION TRAWSNEWID BYWYDAU
LIVE MUSIC NOW
INSPIRING MUSICIANS TRANSFORMING LIVES

Cofnodion a baratowyd gan Katherine Harri, Cynorthwyydd Gweinyddol LMN Cymru
katherine.harri@livemusicnow.org